## GWNEUD EWYLLYS: CRYNODEB PAPUR YMGYNGHORI ATEGOL

Mae'r gyfraith sy'n llywodraethu ewyllysiau yn gynnyrch oes Fictoria yn bennaf. Mae'n cael ei llywodraethu gan ddeddfwriaeth – Deddf Ewyllysiau 1837 yn bennaf – a chyfraith achosion, a chafodd rhai o'r rhain eu datblygu dros gannoedd o flynyddoedd. Er bod rhai agweddau o'r gyfraith ewyllysiau wedi ymateb i amgylchiadau a dealltwriaeth fodern, rydym o'r farn bod angen adolygiad cynhwysfawr, er mwyn sicrhau bod y gyfraith sy'n llywodraethu'r pwnc pwysig hwn yn parhau i fod yn addas i'r diben heddiw. Felly, mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad cyffredinol o'r gyfraith sy'n llywodraethu ewyllysiau.

Er mwyn helpu gyda'n hadolygiad, mae'r Papur Ymgynghori Ategol hwn yn canolbwyntio ar ddau bwnc penodol: ewyllysiau electronig a'r rheol bod priodas neu bartneriaeth sifil ddilynol yn dirymu ewyllys.

### Cefndir

Dechreuodd y prosiect ewyllysiau yn 2016. Ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethom gyhoeddi'r Papur Ymgynghori, Gwneud Ewyllys. Dilynwyd hyn gan gyfnod ymgynghori cyhoeddus a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2017. Yna fe wnaethom ddechrau dadansoddi ymatebion yr ymgyngoreion a llunio ein polisi terfynol, a pharatoi ar gyfer llunio ein hadroddiad terfynol a Bil ategol a fydd yn deddfu ein hargymhellion.

Yn 2019 fe wnaethom oedi'r prosiect er mwyn cynnal prosiect ar y gyfraith sy'n llywodraethu priodasau, ar ôl cytuno i gais y Llywodraeth i roi blaenoriaeth i'r gwaith ar briodasau. Cyhoeddwyd ein hadroddiad terfynol ar gyfreithiau priodasau, Dathlu Priodas, ym mis Gorffennaf 2022.

Fe wnaethom ail-ddechrau'r prosiect ewyllysiau yn fuan wedyn. Ers hynny, rydym wedi parhau i ddadansoddi ymatebion i'n hymgynghoriad a llunio ein polisi terfynol.



### Geirfa

**"Codisil"**: ychwanegiad neu ddiwygiad i ewyllys.

**"Ystâd"**: eiddo, arian a meddiannau unigolyn.

**"Cwblhau"**: y cam olaf wrth wneud ewyllys, y mae'n rhaid ei gyflawni yn unol â gofynion ffurfioldeb a nodir yn y gyfraith er mwyn i'r ewyllys fod yn ffurfiol ddilys.

**"Diewyllysedd"**: pan fydd unigolyn yn marw heb wneud ewyllys ddilys.

**"Profiant"**: y broses gyfreithiol lle profir bod ewyllys yn ewyllys ddilys.

**"Dirymiad"**: y weithred ffurfiol o dynnu ewyllys dilys yn ôl. Mae ewyllys, wrth ei natur, yn ddirymadwy gan yr ewyllysiwr hyd at eu marwolaeth.

**"Ewyllysiwr"**: unigolyn sydd wedi gwneud ewyllys.

### Y Papur Ymgynghori Ategol

Mae'r Papur Ymgynghori Ategol hwn yn ail-ymgynghoriad ar ddau fater ar wahân: ewyllysiau electronig a'r rheol bod priodas neu bartneriaeth sifil yn dirymu ewyllys presennol.

Mae datblygiadau ers cyfnod y Papur Ymgynghori wedi ein hysgogi i ail-archwilio'r materion hyn. Rydym hefyd yn amau y gallai barn ymgyngoreion ar y materion hyn fod wedi newid hefyd.

Nid ydym yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y chwe blynedd diwethaf, a fyddai'n newid barn yr ymgyngoreion ar y materion eraill rydym yn eu hystyried yn y prosiect hwn. Felly, nid yw'r Papur Ymgynghori Ategol hwn yn ail-archwilio unrhyw rai o'r materion eraill a ystyriwyd gennym ym Mhapur Ymgynghori 2017.

#### Ewyllysiau electronig

Gallai'r term "ewyllys electronig" olygu llawer o bethau. Rydym ni'n canolbwyntio ar y cwestiwn a allai, neu a ddylai ewyllysiau electronig allu cydymffurfio â gofynion ffurfioldeb ar gyfer ewyllys dilys. Felly, rydym yn ystyried p'un a ddylai hyn, a sut y gallai fod yn bosibl i ewyllysiau gael eu cwblhau neu eu gwneud gan ddefnyddio dulliau electronig (y byddwn yn eu galw'n "ewyllysiau wedi'u cwblhau'n electronig") ac, os felly, a ddylai'r ewyllysiau hynny allu cael eu storio a'u cyflwyno ar gyfer profiant fel dogfennau electronig yn unig ("ewyllysiau cwbl electronig").



Ar adeg y Papur Ymgynghori yn 2017, roedd y ddadl dros ganiatáu i ewyllysiau gael eu gwneud a'u storio ar ffurf electronig yn gymharol newydd. Ychydig iawn o drafod a gafwyd ar y posibilrwydd o ewyllysiau electronig yng Nghymru a Lloegr. A phan dderbyniwyd ewyllysiau electronig fel ewyllysiau dilys dramor, cawsant eu derbyn o dan bwerau gweinyddu, a oedd yn caniatáu iddynt gael eu cydnabod fel ewyllysiau dilys er na chydymffurfiwyd â'r gofynion ffurfioldeb.

Nid yw'r syniad o ewyllysiau electronig mor newydd â hynny. Gwelwyd cydnabyddiaeth gynyddol yn y chwe blynedd diwethaf o'r defnydd o ddogfennau a llofnodion digidol mewn cyd-destunau eraill, er enghraifft ar gyfer llunio contractau. Rydym hefyd wedi gweld datblygiadau technolegol enfawr, a chynnydd yn y defnydd o dechnoleg mewn bywyd bob dydd. Yr ydym hefyd wedi profi'r pandemig COVID-19 yn y chwe blynedd diwethaf. Chwaraeodd technoleg rhan bwysig yn y cyfnod hwn i hwyluso'r broses o wneud ewyllysiau. Er mwyn sicrhau y gallai pobl wneud ewyllysiau dilys pan oedd y cyfyngiadau brys a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith. Diwygiodd y Llywodraeth Ddeddf Ewyllysiau 1837 er mwyn galluogi i bobl fod yn dystion o bell drwy fideo-gynadledda. Ymatebodd sawl awdurdodaeth dramor yn yr un modd i ganiatáu ar gyfer tystio electronig, rhai ar sail dros dro, ac eraill yn barhaol. Mae awdurdodaethau eraill wedi cyflwyno diwygiadau parhaol i alluogi ewyllysiau electronig.

Yn sgîl y datblygiadau hyn, credwn y gallai safbwyntiau ymgyngoreion ar ewyllysiau electronig fod wedi newid. Felly, rydym yn dychwelyd at y mater yn y Papur Ymgynghori Ategol hwn.

Mae deddfwriaeth newydd sy'n llywodraethu ewyllysiau yn darparu cyfle i groesawu'r posibilrwydd o ewyllysiau electronig. Rydym yn awyddus i gasglu barn ymgyngoreion arnynt.

Fodd bynnag, rydym yn ansicr a allai ewyllysiau electronig gydymffurfio â'r gofynion ffurfioldeb presennol yn Neddf Ewyllysiau 1837, fel y saif y gyfraith ar hyn o bryd. Er mwyn egluro'r sefyllfa, rydym yn parhau i gredu y dylid diwygio'r Ddeddf Ewyllysiau i eithrio'r posibilrwydd y gallai ewyllysiau electronig gyflawni'r gofynion ffurfioldeb presennol a ddyfeisiwyd gyda dogfennau papur mewn golwg. Rydym yn credu bod hyn yn angenrheidiol er mwyn eithrio'r posibilrwydd y gallai'r mathau mwyaf syml o ddogfennau electronig a llofnodion electronig, sy'n hawdd eu haddasu a'u ffugio, fodloni gofynion ffurfioldeb ewyllys dilys.

Rydym o'r farn bod y cyd-destun ewyllysiau yn codi ystyriaethau penodol. Y rheswm am hyn yw bod ewyllysiau yn unigryw. Mae ewyllysiau yn ddogfennau unochrog y gellir eu gwneud ac sydd yn cael eu gwneud yn rheolaidd heb gymorth unrhyw bobl broffesiynol, neu drydydd parti o gwbl, ac eithrio'r ddau dyst i lofnodwr yr ewyllysiwr. Nid oes unrhyw barti arall sy'n gysylltiedig ag ewyllys ac ni cheir unrhyw gyfranogiad gwladol pan fyddant yn cael eu creu. Nid ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad neu gofrestriad. Gellir eu dirymu hyd at farwolaeth yr ewyllysiwr, a hyd at yr amser hwnnw gall yr ewyllysiwr eu cadw'n gwbl breifat. Ni ellir profi bod ewyllys yn ddilys tan ar ôl marwolaeth yr ewyllysiwr. Felly, mae ewyllysiau'n gweithredu mewn ffordd, ac mewn cyd-destun, sy'n wahanol iawn i ddogfennau cytundebol neu drafodol lle mae cwblhau electronig yn fwyfwy cyffredin.



Oherwydd bod cyd-destun ewyllysiau yn unigryw, mae'r gofynion cyfredol i'w derbyn fel ewyllysiau dilys yr un mor unigryw.  Ar gyfer ewyllysiau papur, mae'r gofynion hynny wedi'u nodi yn adran 9 Deddf Ewyllysiau 1837. Oherwydd bod gan ewyllysiau papur eu gofynion pwrpasol eu hunain i gael eu derbyn fel ewyllysiau dilys, awgrymwn y bydd gofynion pwrpasol yn allweddol er mwyn caniatáu i ewyllysiau electronig fod yn ddilys.

Felly, y cwestiwn yw sut a phryd y dylid cyflwyno gofynion pwrpasol ar gyfer ewyllysiau electronig. A ddylai Deddf Ewyllysiau newydd ddarparu bod ewyllysiau electronig yn ddilys, gydag unrhyw ofynion manwl (gan gynnwys unrhyw fanylebau technolegol) wedi'u nodi mewn deddfwriaeth eilaidd ar wahân?  Neu a ddylai Deddf Ewyllysiau newydd wneud dim mwy na chynnwys pŵer galluogi, a fyddai'n caniatáu i ewyllysiau electronig gael eu cydnabod yn ddilys yn y dyfodol? Hynny yw, a ddylai ewyllysiau electronig gael eu galluogi ar wyneb Deddf newydd, neu a ddylid rhoi pŵer i'r Llywodraeth i'w galluogi ar ryw bwynt yn y dyfodol?

Rydym yn awyddus i glywed safbwyntiau'r ymgyngoreion.


### Dirymiad drwy briodas neu bartneriaeth sifil

Yn ôl ei natur, mae ewyllys yn ddirymadwy gan yr ewyllysiwr hyd at eu marwolaeth. Gall ewyllysiwr ddirymu ei ewyllys drwy ewyllys neu godisil arall, drwy fwriad ysgrifenedig i ddirymu, neu drwy ddinistrio. O dan delerau Deddf Ewyllysiau 1837, mae ewyllys hefyd yn cael ei ddirymu gan briodas neu bartneriaeth sifil ddilynol.

Yr ydym yn awgrymu y dylid ail-edrych o'r newydd ar yr ail fath o ddirymiad yn sgîl y pryderon cynyddol ynghylch yr hyn a elwir yn aml yn "briodasau rheibus".



Priodas reibus yw pan fydd unigolyn yn priodi rhywun, rhywun sy'n aml yn oedrannus neu nid oes ganddynt y galluedd meddyliol i briodi, fel math o gam-drin ariannol. Efallai y byddant yn priodi person oedrannus er mwyn etifeddu ganddynt. Mae'n ymddangos bod y mater hwn yn codi amlaf mewn perthynas â phriodas, ond gall



godi hefyd mewn perthynas â phartneriaethau sifil.

Er ein bod wedi ystyried yn y Papur Ymgynghori yr angen i ddiogelu ewyllyswyr agored i niwed mewn cysylltiad â'r rheol bod priodas yn dirymu ewyllys, roedd ein dealltwriaeth o'r risg a chyffredinolrwydd priodasau rheibus yn gyfyngedig.  Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae pryderon ynglŷn â phriodasau rheibus wedi cynyddu.  Mynegodd ymgyngoreion eu pryderon ynglŷn â phriodasau rheibus gyda ni ar hyd y prosiect priodasau.  Mae'r mater wedi derbyn sylw yn y cyfryngau hefyd ac wedi bod yn destun cwestiynau yn y Senedd.

Mae'r mater o briodasau rheibus yn berthnasol i ddirymiad oherwydd mae'r rheol bod priodas neu bartneriaeth sifil yn dirymu ewyllys, ynghyd â'r darpariaethau diffyg ewyllys, yn hwyluso'r math hwn o gam-drin ariannol.

Pan fydd ewyllys yn cael ei dirymu gan briodas neu bartneriaeth sifil, pan na fydd yr unigolyn yn gwneud ewyllys newydd, bydd y rheolau diewyllysedd yn berthnasol.  O dan y rheolau diewyllysedd, mae priod neu bartner sifil yr unigolyn yn debygol o dderbyn y mwyafrif o'u hystâd, os nad eu hystâd gyfan.  Ar ben hynny, o dan y trefniadau diewyllysedd, bydd gan y priod neu bartner sifil yr awdurdod i wneud trefniadau angladd a phenderfynu a ddylai corff y person gael ei gladdu neu ei amlosgi, a ble y dylid ei gladdu.

Roedd ein hystyriaethau yn y Papur Ymgynghori yn canolbwyntio ar y cydbwysedd tegwch rhwng teuluoedd cyntaf ac ail deuluoedd, plant sy'n oedolion a phriod sydd wedi goroesi. Ni wnaethom ystyried priodasau neu bartneriaethau sifil sydd wedi'u cymell gan gam-drin ariannol, na fyddai'n cael eu hystyried yn gyfreithlon, neu eu profi gan yr ewyllysiwr, fel perthnasoedd teuluol gwirioneddol o gwbl.

Yn sgîl y pryderon cynyddol ynglŷn â phriodasau rheibus, rydym yn dymuno casglu tystiolaeth o'u cyffredinolrwydd, ac ail-ymgysylltu ag ymgyngoreion ar y cwestiwn a ddylai priodas a phartneriaeth sifil ddirymu ewyllys.

## Ymateb I'n Papur Ymgynghori Ategol

Mae ein Papur Ymgynghori Ategol ar gael yn https://www.lawcom.gov.uk/project/wills/.

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **8 Rhagfyr 2023**.



Gellir anfon sylwadau gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein, sydd ar gael drwy ein gwefan yn https://consult.justice.gov.uk/law-commission/wills. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn defnyddio'r ffurflen hon. Fel arall, gellir anfon sylwadau:

drwy e-bost i wills@lawcommission.gov.uk

neu drwy'r post at

Wills Team,

Law Commission, 1st Floor,

52 Queen Anne's Gate,

London, SW1H 9AG.

(Os byddwch yn anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai'n ddefnyddiol pe gallech, lle bynnag y bo'n bosibl, eu hanfon yn electronig hefyd.)

Gofynnwn i ymgyngoreion osgoi cynnwys gwybodaeth sy'n dweud pwy ydyn nhw neu eraill neu wybodaeth fasnachol gyfrinachol yn nhestun eu hymateb.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal ei ymgynghoriadau, a'n polisi ar gyfrinachedd ymatebion ymgynghoreion, gweler tudalennau i i ii y Papur Ymgynghori a'n tudalen we: https://www.lawcom.gov.uk/document/privacy-notice-and-handling-data/.